Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Rhagfyr 2020

# Adferiad yn dilyn pandemig y Coronafeirws: Cyfalaf dynol, sgiliau, Addysg Bellach ac Addysg Uwch

## Cyflwyniad

Ysgrifennwyd y papur hwn ym mis Mehefin 2020. Mae'n rhan o gyfres o chwe briffiad a gomisiynwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd i lywio a herio strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ailadeiladu ac adfer yn dilyn pandemig y Coronafeirws.

Roedd y briffiadau'n canolbwyntio ar bynciau a ddewiswyd gan y Gweinidogion. Roeddent yn adeiladu ar ein gwaith i gefnogi trafodaethau bord gron a alwyd ynghyd yn gynharach gan y Gweinidog ac roeddent yn helpu i ffurfio a goleuo gwaith Grŵp Arbenigol[1] a gyfarfu â'r Gweinidog rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020. Gwnaethom ysgrifennu casgliadau'r Grŵp a gyfrannodd at drafodaethau'r Cabinet am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau economaidd a chymdeithasol y pandemig.

Mae'r papur cyntaf hwn yn canolbwyntio ar oblygiadau'r pandemig ar gyfalaf dynol, sgiliau ac addysg ôl-16. Mae'n ystyried:

- Y cyd-destun economaidd yng Nghymru;
- Pwysigrwydd blaenoriaethu a chymorth rhagweithiol;
- Cymorth i fusnesau;
- Buddsoddi mewn cyfalaf dynol gan gynnwys polisïau marchnad lafur weithgar a datblygu sgiliau; a
- Rôl addysg bellach ac addysg uwch o ran cefnogi dysgu gydol oes a ffyniant economaidd yn lleol ac ar draws Cymru.



## Y cyd-destun economaidd yng Nghymru

Nid yw eto'n glir sut gyflwr fydd ar economi Cymru yn sgil pandemig y Coronafeirws, ond fel yng ngweddill y DU mae'r risgiau wedi'u gwasgaru'n anghyfartal ar draws y gwahanol ranbarthau, sectorau a grwpiau demograffig. Mae'r bobl sydd ar yr incwm isaf yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn swyddi y mae'r cyfyngiadau symud wedi effeithio arnynt, ac mae'n ymddangos mai gweithwyr iau, menywod

[1] Roedd y Grŵp Arbenigwyr yn cynnwys pedwar aelod sefydlog: Torsten Bell (Prif Weithredwr y Resolution Foundation), Rebecca Heaton (Pwyllgor newid hinsawdd y DU), Paul Johnson (Cyfarwyddwr y Sefydliad Astudiaethau Cyllid) a Miatta Fahnbullah (Prif Weithredwr y Sefydliad Economeg Newydd).

a'r rheini o gefndiroedd BAME sydd fwyaf mewn perygl o ddiweithdra / tangyflogaeth (Dadansoddi Cyllid Cymru, 2020a).

### Sectorau agored i niwed

O'i gymharu â gweddill y DU, mae gan economi Cymru lai o wasanaethau cynhyrchiant uchel, gwerth uchel; mae'n cynnwys gwasanaethau cynhyrchiant is, gweithgynhyrchu, twristiaeth ac amaethyddiaeth yn bennaf, yn ogystal â chyfran uchel o gwmnïau bach. Mae hyn yn golygu ei fod yn arbennig o agored i effeithiau'r sioc economaidd a achosir gan y pandemig (Portes et al., 2020).

> **Mae'n amhosibl i Lywodraeth Cymru gefnogi pob rhan o'r economi. Bydd angen blaenoriaethu a darparu cymorth rhagweithiol i'r rhannau o'r economi y mae'n ystyried sydd bwysicaf**

Mae'r argyfwng hefyd wedi effeithio'n anghymesur ar rai sectorau gweithgynhyrchu gwerth uchel, yn enwedig awyrofod, a gallai gymryd mwy o amser i adfer gan y bydd hi'n anodd i'r sector adennill costau canslo ac ad-daliadau (Muro et al. 2002, Konings, 2020).

### Cymunedau agored i niwed


Yn yr ardaloedd llai ffyniannus yng Nghymru fe welir bod crynodiadau o swyddi yn y sectorau y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt fwyaf, yn enwedig twristiaeth, manwerthu ac amaethyddiaeth. Yng Nghymru yn gyffredinol, mae 21.7% o weithwyr yn cael eu cyflogi mewn pedwar sector a gaewyd – 11.7% mewn manwerthu heb fod yn fwyd, 6.5% mewn tafarndai a bwytai, 2.1% yn y celfyddydau a hamdden, ac 1.4% mewn llety. Mae llawer o weithwyr a pherchnogion busnes yn y sectorau hyn yn dibynnu ar amrywiadau incwm tymhorol iawn, ac ychydig iawn o gyfleoedd cyflogaeth eraill sydd ar gael.

Mae economïau lleol mewn ardaloedd gwledig anghysbell, cymoedd y De a threfi arfordirol yn arbennig o agored i risg o'r sioc economaidd sy'n deillio o'r pandemig.

Mae ymchwil gan y Centre for Towns yn awgrymu mai Aberystwyth yw'r dref fwyaf agored i niwed yng Nghymru, gyda 47% o weithwyr yn y sectorau hyn; mae Porthcawl (43%), Llandudno (41%) a Bae Cinmel (40%) hefyd yn dioddef yn arbennig o ddrwg (Warren et al., 2020).

Amcangyfrifir bod y cyfraddau cau yn uchel yn yr ardaloedd gwledig ac yng nghymoedd y De (Sefydliad Bevan, 2020). Yng Ngwynedd, er enghraifft, amcangyfrifir bod tri o bob deg busnes yn cau.

O'r tair dinas fwyaf yng Nghymru o ran swyddi, Casnewydd sydd fwyaf agored i'r argyfwng, wedyn Caerdydd, ac Abertawe sydd leiaf agored iddo (ONS, 2020).



### Grwpiau agored i niwed

Mae patrwm yr effaith ar wahanol grwpiau demograffig yng Nghymru yn debyg i weddill y DU. Mae pobl ifanc yn fwy tebygol o fod mewn sectorau yr effeithir arnynt, ac yn fwy tebygol o fod mewn math o waith sy'n fwy ansicr. Mae

perygl y bydd y pandemig yn creu carfan sylweddol o bobl y mae eu lles economaidd o dan fygythiad o'r newydd. Mae pobl hŷn hefyd mewn perygl. Mae llawer o bobl yn eu 60au a 70au yn dal i weithio, mae llawer o weithwyr allweddol dros 50 oed, ac mae hanner y bobl hunangyflogedig dros 50 oed (Rest Less, 2019). Efallai y bydd gweithwyr hŷn sy'n cael eu cyflogi yn y sectorau sy'n agored i effeithiau'r pandemig yn ei chael hi'n arbennig o anodd i ddod o hyd i swyddi eraill, gan arwain naill ai at risg o ddiweithdra neu dangyflogaeth. Ond mae'n bwysig cofio natur groestoriadol yr anfanteision a cheisio cefnogi pawb sydd fwyaf mewn perygl o ddiweithdra, cyflog isel, salwch a marw yn gynamserol gan gynnwys menywod ar gyflogau isel, cymunedau BAME, pobl anabl, pobl sy'n dioddef salwch meddwl a phlant sy'n byw mewn tlodi (Bennett et al., 2020).

> **Ar gyfer swyddi cyflog isel, sgiliau isel, bydd cyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa yn allweddol. Gallan nhw helpu i wella ansawdd swyddi, incwm a lles, yn ogystal â rhoi hwb i gynhyrchiant a thwf economaidd**

## Blaenoriaethu a chymorth rhagweithiol

Bydd yr ymateb polisi ar lefel y DU yn pennu ffurf gyffredinol yr adferiad yng Nghymru i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros rai ysgogiadau polisi sylweddol. Bydd penderfyniadau'r DU ynglŷn â graddfa a pharamedrau unrhyw becyn ysgogi, ac ar amodoldeb mewn perthynas â chymorth nawdd cymdeithasol, yn allweddol. Gall Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ar gyfer datblygiad economaidd, cymorth i fusnesau, sgiliau a chyflogadwyedd sydd wedi'i deilwra i anghenion a chyfleoedd penodol yr economi a chymunedau yng Nghymru, ac fe ddylai wneud hynny.

Mae'n amhosibl i Lywodraeth Cymru gefnogi pob rhan o'r economi. Bydd angen blaenoriaethu a darparu cymorth rhagweithiol i'r rhannau o'r economi y mae'n ystyried sydd bwysicaf. Cwestiynau allweddol i'r Gweinidogion yw:

- I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd ati'n rhagweithiol i ddiffinio a llunio cyfeiriad yr economi yng Nghymru; a
- Pa rannau o'r economi fydd yn cael cymorth.

Bydd yr atebion i'r cwestiynau hyn yn pennu natur a graddau'r cymorth i fusnesau ac unigolion er mwyn sicrhau adferiad ar ôl y pandemig.

Mae polisi economaidd diweddar Llywodraeth Cymru wedi ceisio cynyddu gwydnwch a chynyddu cynhyrchiant gan feithrin cymdeithas fwy cyfartal ar yr un pryd. Pwysleisiodd bwysigrwydd y sectorau 'sylfaen' – manwerthu, bwyd, gofal, a thwristiaeth – ond fel arall canolbwyntiodd ei gymorth cyllid uniongyrchol drwy ddiffinio *'Meysydd Gweithredu'*[2] a gosod amodau ar gyfer cymorth y Llywodraeth drwy *'Gontract Economaidd'*[3]. Rhywbeth sy'n berthnasol i hyn oedd y diddordeb parhaus mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel, gwasanaethau masnachadwy, a 'galluogwyr' cystadleurwydd (ee digidol) (Llywodraeth Cymru, 2017).

Mae'r cynigion y gofynnwyd i'r Grŵp Arbenigol eu hystyried yn awgrymu canolbwyntio ar rai

[2] Y rhain yw: "Datgarboneiddio; Arloesi, entrepreneuriaeth a phencadlys; Allforion a masnach; Cyflogaeth o ansawdd uchel, datblygu sgiliau a gwaith teg; Ymchwil a Datblygu, awtomeiddio a digideiddio".
[3] Mae hyn yn cynnwys: "Y potensial i dyfu; Gwaith teg; Hyrwyddo iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl); sgiliau a dysgu yn y gweithle; Camu ymlaen at leihau ôl troed carbon."

rhannau o'r economi: adeiladu tai ac ôl-osod, gofal cymdeithasol, ynni adnewyddadwy, digidol, a rheoli tir. Mae sail resymegol gryf i hyn ond, fel y nodwyd yn ein hadroddiad diweddar ar wydnwch economaidd (Healy, 2020), mae'n bosibl y bydd angen gwneud dewisiadau anodd rhwng:

- **Mesurau lliniaru**: Cefnogaeth i gynnal y swyddi presennol mewn sectorau lle mae eu dyfodol hirdymor, ar y gorau, yn ansicr ond sy'n sylfeini economaidd allweddol mewn llawer o gymunedau yng Nghymru; ac
- **Ailgodi'n gryfach**: Canolbwyntio cymorth Llywodraeth Cymru ar weithgareddau economaidd mwy cynaliadwy sydd â mwy o botensial yn yr hirdymor i sicrhau Cymru sy'n fwy ffyniannus, tecach a gwyrddach, ond ni fydd yn adfer y swyddi a gollir mewn sectorau eraill yn y tymor byr.

## Cefnogi busnesau a chefnogi unigolion

Mae ymchwil i wydnwch economïau i'r sioc economaidd yn dilyn yr argyfwng ariannol byd-eang yn 2008 yn tynnu sylw at y ffaith ei bod hi'n hanfodol i fusnesau allu ymaddasu ac arloesi – pa mor dda y gallent, er enghraifft, symud i farchnadoedd gwahanol, neu newid eu dulliau cynhyrchu neu ffyrdd o weithio. Yn yr un modd, roedd gallu teuluoedd ac unigolion i addasu yn bwysig. Ychydig iawn o fyfferau oedd gan grwpiau llai gwydn o ran cynilion aelwydydd, yn ogystal â lefelau dyled uwch, llai o allu neu barodrwydd i symud o'r ardal lle maen nhw'n byw, a llai o allu i ailhyfforddi neu newid swyddi (gweler Healy a Bristow, 2018).

Wrth ddatblygu cynllun adfer, dylai Llywodraeth Cymru ystyried dulliau o feithrin a chefnogi'r 'gallu i ymaddasu' ymysg cwmnïau ac aelwydydd.

### Cymorth i fusnesau

Y tu hwnt i'r pecynnau 'achub' uniongyrchol, bydd llywodraethau yn dymuno datblygu strategaethau ar gyfer adferiad busnesau[4]; gallai hyn gynnwys cymorth ar gyfer y canlynol:

- **Buddsoddi mewn seilwaith allweddol**: Gallai rhoi mwy o'r adroddiad Adolygiad o Arloesi Digidol (2019) gan yr Athro Phil Brown ar waith yrru seilwaith o blaid busnesau. Roedd argymhellion yr adroddiad yn cynnwys creu clystyrau arloesi ledled Cymru; sefydliad AI; fframwaith sgiliau newydd; a chynyddu cyllid yn sylweddol i gefnogi rhannau o'r economi sylfaenol i wella eu sgiliau a seilwaith digidol.
- **Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer busnesau bach a chanolig**: Mae nodweddion tyfu ac uchelgais twf perchennog-reolwyr yn gyfyngiadau a gydnabyddir ar dwf busnesau bach a chanolig. Ychydig iawn o gwmnïau yng Nghymru sydd â chynllun strategol llawn ar waith ac mae gan lawer systemau cyfyngedig ar waith i fonitro perfformiad (Morgan a Holtham, 2020). Mae sioc economaidd yn golygu bod gan y busnesau hynny lai o allu i ymaddasu ac arloesi mewn sefyllfa fwy agored i niwed (Healy, 2020).



[4] Ar hyn o bryd, Busnes Cymru sy'n darparu cymorth i fusnesau. Mae Busnes Cymru yn darparu cyngor a chefnogaeth ddiduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i bobl sy'n dechrau, rhedeg a thyfu busnes yng Nghymru.

- **Rhwydweithiau busnes**: Mae rhwydweithiau busnes yng Nghymru yn gyfyngedig ac nid ydynt yn cefnogi rhwydweithio a thwf i'r graddau sy'n bosibl. Gallai gwasanaethau cymorth i fusnesau hwyluso gweithgareddau rhwydweithio a chydweithio mwy effeithiol er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chynhyrchiant a pherfformiad (Morgan a Holtham, 2020).
- **Ail-lunio rôl Banc Datblygu Cymru** drwy ymestyn ei rôl y tu hwnt i gyllidwr i fod yn sefydliad ailstrwythuro ac adfywio. Gallai buddsoddi mwy mewn arolygon busnes – yn debyg i'r rhai a wnaed gan y Federal Reserve yn yr Unol Daleithiau – ddarparu dealltwriaeth barhaus hyblyg o faterion a chyfleoedd i fusnesau. Gallai cronfa fenter newydd wedi'i chefnogi gan y llywodraeth, ei sefydlu yng Nghymru, a'i rhedeg gan arbenigwyr ac sy'n cwmpasu rhwydwaith o gymorth i fusnesau a mentrau, helpu cwmnïau yng Nghymru i gyrraedd y lefel nesaf, ac annog sefydlu busnesau newydd (Business Live, 2020).
- **Cefnogi arloesedd mewn prosesau gweithgynhyrchu**: Mae sicrhau pellter rhwng gweithwyr yn debygol o fod yn fwy heriol i rai busnesau gweithgynhyrchu nag eraill. Ni all rhai busnesau weithredu yn bell oddi wrth ei gilydd, ac ni allant ychwaith ddarparu mannau sydd wedi'u hawyru'n dda, sy'n awgrymu risgiau a heriau o ran cau busnesau, colli swyddi ac awtomeiddio. Mae'r achos diweddar o'r Coronafeirws ar Ynys Môn yn enghraifft amlwg o hynny. Mae'n bosibl y bydd symud tuag at awtomeiddio heb arwain at golli nifer sylweddol o swyddi yn gofyn am gymorth wedi'i dargedu ar gyfer rhai sefydliadau.
- Mae **targedu entrepreneuriaeth ac arloesedd** yn fater allweddol i fusnesau yng Nghymru, ac yn enwedig i gwmnïau bach a micro. Mae crynodeb gan Henley (2020) yn awgrymu bod heriau allweddol nid yn unig yn ymwneud â chreu cynnyrch 'newydd' ond hefyd deall a defnyddio prosesau sefydliadol newydd. Mae buddsoddi mewn sgiliau a lles gweithwyr yn hanfodol er mwyn cynnal cyfalaf dynol, yn yr un modd â chefnogi busnesau i gynnal cadwyni cyflenwi a galw yn y farchnad. Mae amgylchedd macroeconomaidd/gwariant cyhoeddus cefnogol yr un mor bwysig â chymorth penodol i fusnesau i wireddu hyn.

Mae enghreifftiau o ymdrechion mwy dwys i leddfu effeithiau siociau economaidd. Er enghraifft, yr ymateb i gau ffatri gweithgynhyrchu ceir yn Longbridge oedd sefydlu grŵp aml-sector i fod yn gyfrifol am roi arbenigedd ac adnoddau ar waith i gefnogi'r unigolion a'r cwmnïau yr effeithir arnynt. Er eu bod yn llwyddiannus, byddai angen ystyried a ellid addasu'r dull hwn i'r argyfwng presennol, a sut y gellir gwneud hynny, yn ogystal â'r goblygiadau o ran adnoddau.



## Cefnogi sgiliau a chyflogadwyedd

Mae'r angen i'r wladwriaeth gefnogi cyfalaf dynol wedi dod yn amlwg iawn drwy bandemig y Coronafeirws. Bydd angen targedu cymorth at y rhai sydd mewn swyddi sgiliau isel a chyflogau isel, y rhai sydd newydd golli eu gwaith, a newydd-ddyfodiaid i'r farchnad lafur, a chyfuno hyn â chymorth i'r rheini heb lawer o gynilion neu ddim o gwbl. Ochr yn ochr â hyn, mae angen cefnogaeth ddwys wedi'i theilwra ar gyfer y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur.

**Ar gyfer swyddi cyflog isel, sgiliau isel**, bydd cyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa yn allweddol. Gallan nhw helpu i wella ansawdd swyddi, incwm a lles, yn ogystal â rhoi hwb i gynhyrchiant a thwf economaidd. Mae'r rhwystrau rhag camu ymlaen mewn swyddi cyflog isel yn cynnwys cost cymryd rhan mewn cynlluniau presennol; arferion rheoli; cyfyngiadau lles; ysgolion swyddi mewnol cyfyngedig o fewn strwythurau cyflogi gwastad; a diffyg cyswllt rhwng ennill sgiliau newydd ac enillion uwch.

> **Gallai'r system addysg ôl-16 chwarae rhan hollbwysig yn y cyfnod adfer, ac fe ddylai wneud hynny. Dylid ymdrechu i annog oedolion ifanc i aros neu ddychwelyd i addysg a hyfforddiant ôl-16**

Gallai polisi'r Llywodraeth i gymell cyflogwyr i ddileu rhwystrau rhag camu ymlaen mewn swydd ategu polisïau eraill, fel hyrwyddo a gorfodi'r cyflog byw cenedlaethol. Gallai cymalau caffael newydd, er enghraifft, ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau sy'n dymuno gweithio gyda'r sector cyhoeddus ddarparu cyfleoedd i gamu ymlaen (Webb et al., 2018). Ceir llawer o sôn am ddull Preston o gaffael – mae tystiolaeth yn awgrymu y gall hybu lles economaidd lleol yn fwy effeithlon, ond dylid cymryd gofal i beidio â niweidio cystadleurwydd a photensial allforio cwmnïau lleol (Price, 2019).

**I newydd-ddyfodiaid i'r farchnad lafur, neu i'r rhai sydd newydd golli eu gwaith**, gallai polisi marchnad lafur weithgar sy'n cynnwys cynllun cymhorthdal cyflog a grantiau ailhyfforddi (sy'n adeiladu ar bolisïau presennol) fod y dull gweithredu gorau. Gallai'r rhain gynnwys gwarantu swyddi neu hyfforddiant ar gyfer pobl ddi-waith hirdymor gan ganolbwyntio ar y gweithwyr sydd â'r lefel isaf o sgiliau. Mae'n bosibl y byddai cymorth hyblyg yn seiliedig ar gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraethau eraill, awdurdodau lleol a strwythurau rhanbarthol fel Bargen Ddinesig yn fwy effeithiol. Mae'n debygol y bydd angen dulliau wedi'u teilwra'n well ar gyfer y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur.

### Adnabod bylchau mewn sgiliau

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu partneriaethau sgiliau rhanbarthol i adnabod bylchau mewn sgiliau yn y marchnadoedd llafur lleol. Gellid ategu hyn gyda chyfres genedlaethol o 'sgiliau ar gyfer y dyfodol', gan ddefnyddio'r ymdrechion presennol i ganfod y rhain (gweler er enghraifft Bell et al., 2018) a'r gwaith a lywiodd ddatblygiad y cwricwlwm ysgol newydd, yn ogystal ag adlewyrchu'r galwadau i ailgyfeirio cymorth at sgiliau a sectorau gwerth uchel.

Gallai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), sy'n gyfrifol am gyllido addysg uwch, helpu i hwyluso partneriaethau rhanbarthol rhwng prifysgolion, awdurdodau lleol, colegau AB a busnesau i ddarparu rhaglenni hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar sgiliau er mwyn ymateb i'r angen presennol a'r angen a ragwelir.



### Rôl addysg bellach ac addysg uwch

Gallai'r system addysg ôl-16 (gan gynnwys ysgolion, colegau, prifysgolion, a phrentisiaethau) chwarae rhan hollbwysig yn y cyfnod adfer, ac fe ddylai wneud hynny. Nid yw'n glir i ba raddau y bydd sefydliadau addysg,

yn enwedig mewn addysg bellach ac addysg uwch, yn ailgyfeirio eu rhaglenni'n ddigonol neu angen cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i wneud hyn. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i Weinidogion ystyried sut y byddant yn cymell sefydliadau i wneud hyn. Efallai y bydd angen mynd ati i ad-drefnu'r sector addysg uwch rywfaint yng Nghymru i ymateb i'r pwysau newydd o ran recriwtio myfyrwyr a ffynonellau cyllid eraill, yn sgil y pandemig a Brexit. Efallai y bydd achos hefyd i archwilio'r cydbwysedd presennol o gymorth ariannol i fyfyrwyr mewn addysg bellach ac addysg uwch.

Mae addysg bellach a dysgu yn y gymuned yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc sy'n alwedigaethol ac yn lleol i'w cartrefi; er mwyn i'r rhain lwyddo:

- Mae'n bosibl y bydd angen mwy o gymorth ariannol i ddysgwyr; a
- Bydd yn hollbwysig canolbwyntio ar ansawdd, yn enwedig sgiliau athrawon AB.

> **Bydd penderfyniadau ynghylch cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg, hyfforddiant a sgiliau yn hanfodol er mwyn cefnogi economi sy'n fwy gwyrdd ac sy'n fwy gwydn a chynhyrchiol gan feithrin cymdeithas sy'n fwy cyfartal ar yr un pryd**

Dylid ymdrechu i annog oedolion ifanc i aros neu ddychwelyd i addysg a hyfforddiant ôl-16. I rai grwpiau, yn enwedig y rhai mwyaf difreintiedig ac sydd wedi ymddieithrio fwyaf, bydd angen cefnogaeth ddwys ac wedi'i theilwra i wneud hyn. Bydd yn drwm ar adnoddau, ac efallai y bydd angen gwneud penderfyniad ynghylch y cydbwysedd rhwng hyn a'r cymorth 'cyffredinol' a gynigir.

Mae gan brentisiaethau y potensial i fod yn fecanwaith pwysig ar gyfer cefnogi datblygiad sgiliau ac adferiad y farchnad lafur. Gallent gefnogi symud gweithwyr o'r sectorau yr effeithir arnynt i swyddi gwahanol, fel y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol neu fand eang a thechnoleg. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod prentisiaethau'n rhaglenni hyfforddi seiliedig ar sgiliau o ansawdd uchel, yn hytrach na ffordd o gael llafur rhad. Gallai ymestyn cymwysterau galwedigaethol i lefel 7 gymell cwmnïau i gynnal eu hyfforddiant eu hunain a gwella sgiliau rheoli (Morgan a Holtham, 2020).

Mae prifysgolion yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sicrhau gweithlu hynod fedrus sydd wedi'i addysgu'n dda ynghyd ag ysgogi gweithgarwch economaidd. Maen nhw'n cynhyrchu tua £5bn y flwyddyn a bron i 50,000 o swyddi yng Nghymru (Prifysgolion Cymru, 2020), a gallan nhw fod yn gatalyddion pwysig ar gyfer datblygu rhanbarthol (Goddard et al., 2018). Disgwylir i brifysgolion Cymru golli oddeutu £100-£140m mewn incwm o ffioedd myfyrwyr yn 2020-21 (Dadansoddi Cyllid Cymru, 2020b). Er bod ffioedd yn cael eu capio ar gyfradd is yng Nghymru nag mewn mannau eraill, maen nhw'n gyfran fwy o incwm prifysgolion Cymru. Efallai y bydd angen cymorth gan Lywodraeth Cymru os ydym am rwystro rhai sefydliadau rhag methu'n ariannol neu leihau nifer y gweithgareddau addysgu ac ymchwil yn sylweddol (Prifysgolion y DU, 2020).

Efallai y bydd prifysgolion sydd â rhywfaint o le ar ôl oherwydd y gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n cael eu derbyn yn cael eu hannog i fuddsoddi mewn dysgu o bell. Gallai hyn greu cyfleoedd newydd i bobl sy'n ei chael hi'n anodd mynd ar gampws, yn enwedig y rheini sydd ag anableddau neu gyfrifoldebau gofalu.

Efallai y bydd y Gweinidogion hefyd yn dymuno ystyried ffyrdd o gadw graddedigion sy'n dod i astudio yng Nghymru ynghyd â denu myfyrwyr sy'n hanu o Gymru, ac sy'n mynychu prifysgolion mewn rhannau eraill o'r DU, yn ôl i Gymru. Gallen nhw gyflwyno cymhellion ariannol a chymhellion eraill i gysylltu addysg a'r

farchnad lafur yn well. Gallai Cymru, er enghraifft, ddatblygu cynllun rhagweithiol i gadw myfyrwyr mudol fel ei fod yn fwy deniadol i fyfyrwyr o'r UE a myfyrwyr rhyngwladol eraill aros yma i weithio. Gallai hyn ganolbwyntio cymaint ar fanteision byw a gweithio yng Nghymru – y bobl, y diwylliant, yr amgylchedd ffisegol, a'r ymrwymiad i les – â'r cymhellion ariannol. Gellir gwneud ymgyrch debyg sy'n canolbwyntio ar raddedigion y DU.

## Myfyriadau

Bydd yn bwysig cyfleu cyfeiriad teithio cydlynol ar gyfer yr adferiad economaidd, er mwyn helpu i lywio penderfyniadau heriol ynghylch pa rannau o'r economi y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi'n rhagweithiol.

Bydd penderfyniadau ynghylch cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg, hyfforddiant a sgiliau yn hanfodol er mwyn cefnogi economi sy'n fwy gwyrdd ac sy'n fwy gwydn a chynhyrchiol gan feithrin cymdeithas sy'n fwy cyfartal ar yr un pryd. Dylid canolbwyntio ar ehangu sectorau gweithgynhyrchu sydd â gwerth ychwanegol uchel gyda chadwyni cyflenwi byrrach a thueddfryd allforio uwch. Bydd hyn yn gofyn buddsoddi mwy mewn sgiliau ar gyfer y sectorau ynni gwyrdd, adeiladu a digidol, a gefnogir gyda mwy o ffocws ar STEM yn y system addysg.

Bydd hefyd yn bwysig sicrhau bod arweinyddiaeth a gallu a chapasiti sefydliadau i ddarparu'r cymorth y mae'r Gweinidogion yn buddsoddi ynddo. Efallai y bydd hyn yn golygu ymgymryd ag asesiad gofalus o rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol, sefydliadau angor, Bargen Ddinesig, y trydydd sector a'r sector preifat, a bydd y cyllid sydd ar gael iddynt yn fater hollbwysig i'w gael yn iawn.

Yn olaf, dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried sut i wneud y defnydd gorau o'i phwerau 'caled' a 'meddal' fel ei bod yn defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael iddi, gan gynnwys pwerau deddfu a chymhellion ariannol ond hefyd ei phŵer cynnull a'i gallu i helpu i ysgogi a fframio syniadau am y math o Gymru mae ei dinasyddion yn dymuno'i gweld yn y dyfodol.

## Ffynonellau


Bell, M., Bristow, D., Martin, S. (2018). **Dyfodol gwaith yng Nghymru.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/04/The-Future-of-Work-in-Wales.pdf

Bennett, L., Bristow, D., Connell, A. et al. (2020). **Cynllunio ar gyfer Adferiad Ffyniannus, Cyfartal a Gwyrdd ar ôl y pandemig Coronafeirws.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/Cynllunio-ar-gyfer-Adferiad-Ffyniannus-Cyfartal-a-Gwyrdd-ar-ôl-y-pandemig-Coronafeirws.pdf

Sefydliad Bevan. (2020). **Where next for the Welsh economy?** Briff ar yr economi. Cyrchwyd o: https://www.bevanfoundation.org/publications/

Brown, P. (2019). **Adolygiad o arloesi digidol: cyflawni trawsnewidiad economaidd ar gyfer gwell dyfodol gwaith**. Cyrchwyd o: https://llyw.cymru/adolygiad-o-arloesi-digidol-adroddiad-terfynol?_ga=2.267123470.1639021166.1606126934-2107173052.1588868234

Business Live. (2020). **What needs to happen to boost the Welsh economy after the Covid-19 pandemic – our panel of experts explore.** Cyrchwyd o: https://www.business-live.co.uk/economic-development/what-needs-happen-boost-welsh-18158497

Goddard, J., Hazelkorn, E., Upton, S. a Boland, T. (2018). **Cynyddu'r Cyfraniad Dinesig gan Brifysgolion.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/cynyddur-cyfraniad-dinesig-gan-brifysgolion/

Healy, A. (2020). **Cryfhau gwydnwch economaidd.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/cryfhau-gwydnwch-economaidd/

Healy, A. a Bristow, G. (2018). **Archwilio gwydnwch economaidd.** Prifysgol Caerdydd. Cyrchwyd o: https://www.cardiff.ac.uk/cy/news/view/1115712-exploring-economic-resilience

Henley, A. (2020). **O'r cyfyngiadau symud i'r adferiad: ailadeiladu llwyddiant busnesau bach yng Nghymru.** Briff Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd

Konings, J. (2020). **All sectors will feel coronavirus hit but some will recover quicker than others.** ING. Cyrchwyd o: https://think.ing.com/articles/all-sectors-will-feel-coronavirus-hit-but-some-will-recover-quicker-than-others/

Morgan, K. a Holtham, G. (2020) **Managing Productivity in Welsh Firms: Final Report.** Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Sefydliad Hodge. Cyrchwyd o https://www.welsheconomicchallenge.com/wp-content/uploads/2020/03/Cardiff-Met-Hodge-Final-Report-2020-final.pdf

Muro, M. Maxim, R. a Whiton, J. (2020). **The places a COVID-19 recession will likely hit hardest.** The Avenue, Brookings. Cyrchwyd o www.brookings.edu/blog/the-avenue/2020/03/17/the-places-a-COVID-19-recession-will-likely-hit-hardest/

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) (2020). **The Business Register and Employment Survey (BRES) employment count, 2018**. Cyrchwyd o: https://cy.ons.gov.uk/surveys/informationforbusinesses/businesssurveys/businessregisterandemploymentsurvey?:uri=surveys/informationforbusinesses/businesssurveys/businessregisterandemploymentsurvey

Portes, J., Bristow, G., a Levell, P. (2020). **Goblygiadau Brexit i incwm aelwydydd.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2020/08/Goblygiadau-Brexit-i-incwm-aelwydydd.pdf

Price, J. (2019). **Model Preston: Datrysiad i Gymru?** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: https://www.wcpp.org.uk/cy/sylwebaeth/model-preston-datrysiad-i-gymru/

Rest Less. (2019). **Nearly One in Two (46%) of the Entire Self Employed Workforce in the UK is now Over the Age of 50.** Cyrchwyd o: https://restless.co.uk/press/nearly-one-in-two-46-of-the-entire-self-employed-workforce-in-the-uk-is-now-over-the-age-of-50/

Prifysgolion y DU. (2020). **Achieving stability in the higher education sector following COVID-19**. Cyrchwyd o: https://universitiesuk.ac.uk/news/Documents/uuk_achieving-stability-higher-education-april-2020.pdf

Prifysgolion Cymru. (2020). **Beth fydd rôl prifysgolion yng Nghymru ar ôl Covid?** Cyrchwyd o: https://www.uniswales.ac.uk/cy/blog-what-role-for-universities-in-post-covid-wales/

Dadansoddi Cyllid Cymru. (2020a). **Covid-19 ac economi Cymru: sectorau a gaewyd a gweithwyr allweddol.** Prifysgol Caerdydd. Cyrchwyd o: https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0017/2410343/Covid-19-and-the-Welsh-economy-shutdown-sectors-and-key-workers-briefing-paper.pdf

Dadansoddi Cyllid Cymru. (2020b) **Covid-19 a'r Sector Addysg Uwch yng Nghymru**. Prifysgol Caerdydd. Cyrchwyd o: https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0010/2394361/Covid_FINAL.pdf

Warren, I., Houghton, J., Jennings, W. a Gregory, M. (2020). **COVID-19 and our Towns**. Centre for Towns. Cyrchwyd o: https://www.centrefortowns.org/reports/covid-19-and-our-towns

Webb, J., Parken, A., Hodges, H. a Mathias, M. (2018). **Hybu camu ymlaen mewn swydd mewn sectorau cyflog isel**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/hybu-camu-ymlaen-mewn-swydd-mewn-sectorau-cyflog-isel/

Llywodraeth Cymru. (2017). **Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi** Cyrchwyd o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf

**Manylion yr awduron**

Helen Tilley, Dan Bristow, Craig Johnson, a Manon Roberts – Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

## Ein gwaith arall ar bandemig y Coronafeirws

Rydym wedi cynnal amrywiaeth o brosiectau i ddarparu tystiolaeth annibynnol i wneuthurwyr polisïau a gwasanaethau cyhoeddus ar yr adferiad economaidd a chymdeithasol yn dilyn pandemig y Coronafeirws. Yn ogystal â phapurau a baratowyd ar gyfer y Grŵp Arbenigwyr a alwyd ynghyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru, rydym wedi arwain asesiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth ar Gefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer cynllun Llywodraeth y DU ar 'Rebuilding a Resilient Britain' dan arweiniad Syr Patrick Vallance; wedi cyhoeddi casgliadau chwe bord gron arbenigol ar adferiad yn dilyn y pandemig; wedi cyhoeddi dadansoddiad o ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Ein Dyfodol'; ac wedi cynhyrchu cyfres o flogiau ar faterion allweddol, gan gynnwys unigrwydd yn ystod y cyfyngiadau ar symud, y goblygiadau i economi Cymru, pwysigrwydd ysgogiad i'r economi werdd i gynorthwyo adferiad, a dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y Gwasanaeth Sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith yr Hyn sy'n Gweithio y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

**Yr Athro Steve Martin**

+44 0 29 2087 5202

steve.martin@wcpp.org.uk